

Croeso!

Mae blwyddyn newydd wedi cyrraedd ac rydym yn disgwyl yn awchus am ddechrau tymor gwych arall o rasio harnais. Yn y rhifyn yma mi fyddwn yn edrych ar y Cyfres Y Ddriag Gymreig.

Beth sy' wedi bod yn digwydd?

Cafwyd ymateb grêt i'r cwis 'Dolig dyddiol yn ystod mis Rhagfyr. Nifer fawr ohonoch wedi medru datrys y cliwiau cryptig. Aeth yr atebion cywir i gyd i mewn i'r het a'r enillydd oedd Kelly Peacock. Mae Kelly eisoes wedi derbyn Tocyn Tymor Ceredrotian 2014. Llongyfarchiadau Kelly!



Cynhaliwyd Cinio Blynyddol Clwb Trotian Tregaron ddiwedd Mis Ionawr ac yn ystod y noswaith cyflwynwyd Gwobrau Ceredrotian i bencampwyr 2013 gan y gwr gwadd Mr Geraint Lloyd o Radio Cymru. Mae'r Gwobrau yn gyfle i gydnabod cefnogaeth perchnogion, hyfforddwyr a gyrwyr sydd wedi cefnogi rasys Ceredrotian yn ystod y tymor. Medrodd 2 o'n bencampwyr dal eu gafael ar eu teitlau o 2012. Alexis Laidler yn ennill Pencampwriaeth yr Hyfforddwyr a Rhys Evans yn ennill Pencampwriaeth y Gyrwyr Ifanc, y ddau yn ennill am yr ail flwyddyn yn olynol. A gall y ddau greu'r hatrig yn 2014? Rocker Laidler oedd Pencampwr y Gyrwyr a Roy Sheedy oedd Pencampwr y Perchnogion. Aeth gwobr Ceffyl y Flwyddyn i Ystwyth DT, a braf iawn oedd gweld ei berchennog, Trefor Morgans yna i dderbyn y tlws ac yntau wedi cael cyfnod annisgwyl yn yr ysbyty yn ddiweddar. Roedd Trefor



mewn hwyliau da ac wrth gyfeirio at ei lwyddiant yn 2013 roedd ei eiriau yn gryno ac yn bwrpasol "Catch me if you can!" Am gyfle i weld ein henillwyr yn dangos eu doniau gwylwch y clip ar youtube <http://www.youtube.com/watch?v=idm95AJmuuY>.

Rydym eisoes yn Mis Bach, ac mi fydd yna lu o geffylau erbyn hyn yn dechrau ar eu hyfforddiant. Unwaith eto mi fydd gan Ceredrotian 6 diwrnod o rasys ar eu cyfer.

Yn ôl yr arfer, Rasys y Gwanwyn Tregaron bydd yn agor y tymor rasio harnais, dydd Sul 4 Mai. Mae'n gyfarfod cyffroes, a werth nodi yn y ddwy flynedd diwethaf mae enillydd Ffeinal Handicap y Gwanwyn wedi mynd ymlaen i ennill Clasur Cymru ym Mis Awst. Eleni mi fyddwn hefyd yn croesawu aelodau Clwb Gyrru Bentley i'r rasys. Rydym yn disgwyl tua 50 o Geir Clasurrol i alw fewn ar eu taith drwy Gymru. Mae'n siŵr y bydd yn wledd i weld.

Wedyn rasys Tanycastell Dydd Sul 3 Awst. Mae criw Ceredigion yn aml yn gwneud yn dda yn y cyfarfod poblogaidd yma ac mae'n sicr mi fydd un ohonynt unwaith eto a'i lygad ar ennill Coron y Castell. Uchafbwynt y tymor rasio fydd Gŵyl Rasys Tregaron Dydd Gwener 22, Dydd Sadwrn 23 a Dydd Sul 24 Awst. Gyda lluo o rasys a'r ceffylau gorau, pa well ford i dreulio penwythnos Gŵyl y Banc.

Clwb Rasio Harnais Llambod fydd yn cloi'r gweithgareddau yng Ngheredigion, Dydd Sul 31 Awst - cyfle i fwynhau'r cyffro ac ail-ymweld a'u trac newydd yn Llanfair Clydogau.



Ffurfiwyd Cyfres y Ddraig nôl yn 2004 wrth i bwyllgor Clwb Trotian cael i ysbrydoli gan gysyniad y Little Brown Jug a datblygu'r Bencampwriaeth 3 oed oedd eisoes ganddynt. Yn ôl yr arfer, mi roedd Tregaron bob amser yn chwilio am rywbeth i godi'r safon a'r nod fan hyn oedd creu rhywbeth newydd, cyffroes a chynaliadwy. Penderfynwyd creu Ras Gyngwystlo yn agored i unrhyw geffyl, lle roedd gwlad ei enedigaeth neu fagwraeth yn ddifater. Ac er mwyn cynnwys gymaint o geffylau a phosib, os nad oedd ceffyl wedi ei enwebu o'r cychwyn mi roedd modd i'r ceffyl gael ei atodi yn ddiweddarach. Mi fyddai'r fath hyn o system o fantais i geffylau wedi ei magu ym Mhrydain ond ar yr un pryd yn caniatáu i geffylau oedd wedi eu mewnfario cael cyfle i gael eu henwebu ond ar gost gynyddol.

Cynhaliwyd Y Ddraig Fach Gymreig gyntaf ym Mis Awst 2014 a dim ond i geffylau 3 oed. Gan fod hyn yn fenter newydd, ac mi roedd angen amser i ddatblygu'r gyfres - penderfynwyd canolbwyntio ar gael cynifer a phosib i greu rhag rasys a ffeinal, felly yn wreiddiol roedd rhaid cyfuno'r ebolion ar ebolesau gyda ei gilydd. Dros y blynyddoedd mae'r Ras wedi datblygu ac erbyn hyn mae adrannau o rasys yn cael ei rhedeg yn Rasys y Gwanwyn ac yn yr Ŵyl Rasio ym Mis Awst. Mae llwyddiant y gyfres wedi gwaranti rannu'r ebolion a'r ebolesau a chreu adran i geffylau 2 flwydd, 3 a 4 oed. Mae'r Gyfres wedi bod yn boblogaidd iawn ac yn un o brif rasys nid jyst yn Nhregaron ond yn y DU wrth i'r gyfres gael ei chydabod fel un o brif rasys Gyngwystlon ym Mhrydain ac Iwerddon.

Yn Y Ddraig Fach Gymreig gyntaf roedd yna 19 o geffylau, 2 rhag ras a ffeinal. Ras dat-glwm oedd y rhag ras gyntaf rhwng Lucky Touch a Mystery Man. Cams Best aeth ar ail rhag ras ac fe aeth mlaen i ennill y ffeinal gan guro Lucky Touch o 2 hyd. Mi roedd Y

Ddraig Fach Gymreig wedi cyrraedd, ac mi roedd yma i aros!

Erbyn 2005, roedd yn bosib cyflwyno'r Ddraig lau Gymreig i geffylau 2 oed. Wyth ceffyl yn dod i'r cychwyn ac Ayr Glory yn fuddugol. Roedd yna 3 rhag ras i'r Ddraig Fach Gymreig, Meadowbranch Katie yn ennill rhagras i'r ebolesau, gyda Star's Dragon a Clemtex yn ennill 2 rhag ras cymysg. Stars Dragon aeth a'r ffeinal gyda'r Katie a Clemtex yn ail a thrydydd.

Yn 2006 cyflwynwyd Y Ddraig Hyn Gymreig i geffylau 4 oed. Wedi creu'r fath diddordeb yn y gyfres, a chynifer wedi enwebu, penderfynnwyd gynnig gwerth eu harian i'r ceffylau a chreu ras oedran arall. Yn annhebyg i'r Ddraig lau a'r Ddraig Fach, mae'r Ddraig Hyn yn cael ei chynnal yn Rasys Y Gwanwyn ym Mis Mai. Mae'r ras yn un o brif rasys Mis Mai a phob amser yn denu ceffylau 4 oed gorau'r wlad. Yn 2006, 9 o geffylau tu ôl i'r gât, gyda Aahm The Sharpest a Star's Dragon yn cychwyn yn gyd-ffefrynwyr. Ond er wedi tynnu rhif 9 tu ôl i'r gât, fe hwyliodd Stars Dragon i fuddugoliaeth gysyrus iawn, gan ennill o 8 hyd. Hefyd yn 2006 gwelwyd y 'Race-Off' cyntaf, gyda 2 rhag ras - enillwyd y cyntaf gyda What About Me a'r ail gan Lyons Robin Hood. Aeth y 2 ceffyl yng nghyd a 6 arall ymlaen i'r ffeinal, ond er cael mantais o'r safleoedd gorau tu ôl i'r gât cafwyd y 2 eu curo gan Conners Dragon. Yn ôl rheolau'r Ddraig ar y pryd, roedd rhaid ennill 2 ras - felly cafodd y 3 ei gwahodd yn ôl i rasio yn y 'Race-Off' y diwrnod canlynol, ac y tro hyn Conners Dragon aeth a hi a chael ei goroni fel enillydd y Ddraig Fach Gymreig 2006.

Yn 2007, daeth Conners Dragon yn ei ôl i ennill Y Ddraig Hyn Gymreig, cychwyn i flwyddyn arbennig iawn iddo. Kikikolt aeth a'r Ddraig Fach Gymreig wedi brwydr ffyrnig yn y rhag ras a'r ffeinal gyda Rhyds Desire. Mattador Hall aeth a'r Ddraig lau Gymreig a dyma'r cam cyntaf o gyflawni'r Ddraig driphlyg.

Ymlaen i 2008 ac wedi ystyried y sefyllfa a gwranddo ar yr adborth, roedd yn amser i rannu'r ebolion a'r

ebolesau a chreu adran benodedig i'r ebolesau. Ac felly yn 2008 cyflwynwyd y Ddreiges Iau Gymreig i'r ebolesau 2 oed a'r Ddreiges Fach Gymreig i'r ebolesau 3 oed. Yn anffodus, oherwydd y tywydd gorfodwyd I Dregaron ganslo'r rasys. Ond er gorfod canslo'r rasys fe ail-leolwyd Rasys Y Ddraig ar drac Efrog. Ayr Panama oedd ennillydd cyntaf y Ddreiges Iau Gymreig a Judy Hall y Ddreiges Fach Gymreig. Rhyds Phantom oedd yn fuddugol yn y Ddraig Iau Gymreig a Mattador Hall yn parhau ei lwyddiant with ennill y Ddraig Fach Gymreig.

Mi roedd Mattador Hall yn ôl yn Nhregaron yn Rasys y Gwanwyn go gyfer a'r Ddraig Hyn Gymreig, ac wrth ennill, fe oedd y ceffyl cyntaf i ennill Rasys Y Ddraig yn 2, 3 a 4 oed. Tipyn o gamp wrth ystyried safon y ceffylau roedd yn cystadlu yn erbyn. Gwelwyd 'Race-Off' arall ym Mis Awst, y tro hyn yn adran yr ebolesu. Lyons Anita a Jill N Jones yn ennill ei rhag rasys, ond fe ddaeth Majestic Rosa ymlaen i ennill y ffeinal. Felly, unwaith eto - cafodd y tair eboles wahoddiad i ddychwelyd nôl i'r 'Race-Off' y diwrnod canlynol ond fe ymwrthododd Lyons Anita, felly dim ond 2 oedd yn y ras a Jill N Jones yn fuddugol. Wedi'r 'Race-Off' yn 2009, fe gymerodd Clwb Trotian Tregaron amser i ystyried a oedd gwir angen cael 'Race-Off'. Roedd yn cyflwyno nifer o faterion ac wedi trafod y mater, penderfynwyd diddymu'r 'Race-Off'.

Eto oherwydd y tywydd, cafodd trydydd diwrnod Gŵyl Rasys Tregaron ei ganslo. Ac unwaith eto cafodd Y Ddraig Iau ei ail-leoli, i Dir Prins y tro 'ma. Rhyds Five Star oedd yn fuddugol ac fe aeth ymlaen i fod yn dipyn o arbenigwr wrth ennill y Ddraig Driphlyg. (2, 3 a 4 oed).



Unwaith eto cafwyd trafferthion gyda'r tywydd yn 2012, pan gafodd Gŵyl Rasys Mis Awst i ail-leoli i drac Dyffryn Aman. Ond er bod y tywydd wedi bod yn ben tost mae Rasys Y Ddraig wedi cael eu cynnal bob

blwyddyn. Yn 2012, gwelsom 2 o'n brif gystadleuwyr i'r Ddraig Hyn eleni sef Ladyford Indianna a Stamp Hill - fe ceffylau 2 flwydd fe wnaeth y ddau greu argraff a trechu eu gwrthwynebwyr yn ddiamod. Dychwelodd y ddau i ennill y Ddraig a'r Ddreiges Fach, ac erbyn hyn mae'r ddau yn cael eu cydnabod fel Brenin a Brenhines o griw'r ceffylau tair oed 2013, ac mae'r ddau yn cael ei anelu i'r Ddraig Hyn yn Mis Mai - y 2 gyda siawns o ennill y Ddraig Driphlyg. Mae'r 2 yn hollol wahanol, Stamp Hill yn gawr o geffyl sydd wedi ennill y ddwy Ddraig flaenorol mewn amseru cyflym. Mi fyddai ennill y Ddraig Driphlyg yn bluen arall yn het tîm Laidler. Yn gorfforol mae Ladyford Indianna yng ngwrthgyferbyniad llwyr, tamed o eboles ond yn llawn calon. Mi fydd ei chysylltiadau yn hollol ymwybodol y bydd yn dipyn o job i guro'r bois, ond meant yn barod i'r her. Ai hi fydd yr eboles gyntaf i ennill y Ddraig Driphlyg?



Ers sefydlu'r Ddraig yn 2004, mae dros 1600 o geffylau wedi eu henwebu i Gyfres Y Ddraig, gyda dros £190,000 wedi ei ddsbarthu mewn gwobrau. Mick Lord yw gyrrwr sydd wedi bod mwyaf llwyddiannus wrth ennill wyth ras, pump o rain yn blant I CPR (Rhyds Desire, Rhyds Destiny a Rhyds Topaz). Enillodd y tri arall gyda Rhyds Fivestar, a gwerth nodi fod brawd Five Star sef Stars Dragon hefyd wedi ennill 2 Ddraig. Alexis Laidler yw'r hyfforddwr mwyaf llwyddiannus, wrth hyfforddi saith o'r enillwyr, ac er ei llwyddiant eleni yw'r cyfle cyntaf mae wedi cael i fynd am yr hatrig.

Mae nifer fawr o enillwyr y Ddraig wedi mynd ymlaen i fod yn rhai o gewri rasio harnais. Ac wrth fynd i mewn i'w unfed flwyddyn ar ddeg mae'n amlwg fod Cyfres Y Ddraig yn denu'r ceffylau gorau.

Mae dyddiad cau'r enwebiadau yn agosâi, nawr yw eich cyfle i ymuno a chyffro'r Ddraig. Dyma restr o'r taliadau sy'n ddyledus erbyn Mawrth 1af 2014.

Newyddion Sydyn

- Ebolion Blwydd (Ganwyd 2013) - Gallwch enwebu ebolion a ganwyd yn 2013 i Gyfres Y Ddraig. **£15 yr ebol, yn ddyledus erbyn Mawrth 1af 2014.**
- Ceffylau 2 flwydd (Ganwyd 2012) - **Taliad nesaf yn ddyledus £50 erbyn Mawrth 1af 2014.** Mae'n bosib atodi ceffylau 2 flwydd oed sydd heb gael eu henwebu am £250 yn ddyledus erbyn Mawrth 1af 2014.
- Ceffylau 3 blwydd (Ganwyd 2011) - **Taliad nesaf yn ddyledus £50 erbyn Mawrth 1af 2014.** Mae'n bosib atodi ceffylau 3 blwydd oed sydd heb gael eu henwebu am £500 yn ddyledus erbyn Mawrth 1af 2014

Am fwy o wybodaeth, ffurflen enwebu a rhestr o geffylau sy'n gymwys i'r Ddraig Hyn Gymreig ewch i'r wefan.

- Swydd Ran-amser wedi hysbysebu gyda STAGBI. Manylion ar gael ar dudalen newyddion ein gwefan. Dyddiad cau 14 Chwefror.
- Mae'r BHRC wedi eich atgoffa fod yn rhaid i frechiadau fflw ceffylau fod yn gywir. Gall arbed cryn dipyn o helynt os i chi yn gwneud yn siŵr fod popeth yn iawn CYN bod y ceffylau yn barod i rasio.
- Nawr yw'r amser i wneud taliadau ac enwebiadau Cyfres Y Ddraig. Taliadau I law erbyn 1 Mawrth. Manylion llawn ar ein gwefan.
- Cofiwch hefyd i daro golwg ar ein tudalen "Dyddiadau i'w Cofio" - gwybodaeth am ba ddyddiad cau pob math o daliadau/enwebiadau a digwyddiadau. Croeso i unrhywun gysylltu er mwyn cynnwys dyddiad pwysig.

